YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
Y LLWYBRAU GYNT LLE BU'R GÂN.
LLITH.
PRIODAS. MARWGOFION.
NODION YR EGLWYSI.



Cyf. xxxv. | Chwef. 1935 | Rhif 2

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 2, Monumental Terrace, Cefncoed, Merthyr Tydfil.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

LLYFR GWERTH EI FEDDU.

Y mae ychydig Gopiau o

"GWILYM MARLES"

YNG NGHYFRES Y FIL (Syr O. M. Edwards)

I'W CAEL AR HYN O BRYD.

Pris 1s. 6c. (drwy'r Post, 1s. 8c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXV. CHWEFROR, 1935. RHIF 2

" DOS I'TH YSTAFELL—."

DYLAI'R gred fod rhyw gymaint o'r Dwyfol ymhob dyn ddadrys llawer o'n problemau ynglŷn a pherthynas dynion a'i gilydd.—
—LLYFR DISGYBLAETH Y CRYNWYR.

* * *

YR ydym wedi codi i'r argyhoeddiad ein bod yn rhan o Natur ac felly yn rhan o Dduw,—fod yr holl Greadigaeth yn symud i gyfeiriad rhyw Ddiben mawr,—ein bod ninnau yn awr ar ôl oesoedd o ddatblygu, wedi dyfod yn rhannau ymwybodol o'r cynllun mawr ac yn gallu cyd-weithio ynddo gyda gwybodaeth a llawenydd. Nid estroniaid ydym mewn byd dieithr dan reolaeth Duw sydd yn sefyll o'r tu allan,—rhannau ydym o'r cyfan sydd yn datblygu. Amgylchynnir ni gan Gariad sydd yn a thrwy bob peth.—SYR OLIVER LODGE.

* * *

NID Awdurdod sydd yn ein sathru i fod yn " abwyd " ydyw'r gyfathrach sydd rhwng Duw a ni, ond cariad sydd yn parchu ac yn diogelu ein personoliaeth ; dyma hefyd ydyw y ddeddf ddylai reoli ein cyfathrach â'n gilydd, yn unigolion a chenhedloedd. Y mae Duw yn curo wrth ddrws ein calon a gallwn ninnau ei ollwng i fewn, ond ar ein hochr ni mae'r glicied. O'r tu fewn i bersonoliaeth dyn y mae Duw yn ceisio ei helpu,—drwy sant a phroffwyd a doethwr, yn bennaf oll drwy y mynegiant o'i gymeriad yn Iesu Grist, a thrwy'r oesoedd drwy sibrwd ei ysbryd yn ein calonnau : ac o'r tu fewn i'n personoliaeth ni rhaid i'r ateb ddod fydd yn gollwng i fewn ei fywyd a'i gariad.—A. C. BRAITHWAITE.

* * *

O DDUW, Golau pob calon a'th wel, Bywyd pob enaid sydd yn dy garu, Nerth pob Meddwl a'th geisia, dyro i mi gael parhau yn ddisigl yn dy gariad santaidd. Bydd Di yn lawenydd fy nghalon : cymer hi i gyd dy hun, a thriga ynddi. Addefaf fod tŷ fy enaid yn rhy gul i Ti ; gwna Di ei ehangu, fel y gelli ddyfod i mewn. Mae y tŷ yn adfeiliog, gwna Di ei gyweirio ; mae ynddo bethau sydd yn dramgwydd i'th lygaid Di, ond pwy ond Tydi all ei lanhau ? Arnat Ti felly y llefaf am i Ti fy nghlanhau oddiwrth fy meiau cuddiedig. Cadw dy was rhag pechodau rhyfygus fel na chant deyrnasu drosof. Amen.—SANT AWSTIN.

Nodiadau'r Golygydd.

Yn yr ardal druenus hon, nid oes fawr gyfle na blas i feddwl am ddim y dyddiau hyn ond am

Gyflwr enbydus y Diwaith.

Fel y gwyddis daeth i rym yn ystod y mis diweddaf reolau a safonau newydd i lywodraethu mesur y cymorth ariannol roddir i wŷr diwaith a'u teuluoedd. Canlyniad yw hyn i basio Deddf newydd y Diwaith y flwyddyn ddiweddaf. Gan nad beth am deilyngdod neu ddiffyg teilyngdod egwyddorion hanfodol y ddeddf hon, effaith y rheolau newydd drwy Ddeheudir Cymru fu iselhau safon byw i gannoedd o filoedd o deuluoedd. Yr oedd y safon eisioes yn ddigon isel i fod yn berygl gwirioneddol i iechyd a chryfder corfforol rhan helaeth o'r boblogaeth ; o gael fod y rheolau newydd yn gostwng ymhellach y gardod brin naturiol oedd disgwyl ton o wrthdystio. Gwrthdystio cryf a chroch fu ymhob cwm a phentref. Nid oes nemawr gapel nac eglwys na chymdeithas o unrhyw fath drwy siroedd Morgannwg a Mynwy na fu yn codi llais ac yn cefnogi rhyw ffurf o brotest yn erbyn y cam. Mae lle i gredu erbyn hyn i nerth y brotest a natur gyffredinol y gefnogaeth roddwyd iddi ddylanwadu ar y Llywodraeth ; gallwn ddisgwyl diwygio y rheolau ac unioni y cam—i ryw raddau.

Dioddefaint y bobl segur ac anffodus sydd yn gorfod dibynnu ar gardod sydd yn cael y lle blaenaf ym meddwl pob dyn a chanddo ryw rith o deimlad dyngarol yn ei galon ; ond mae digwyddiadau fel hyn yn codi cwestiynau pwysig eraill hefyd ac yn arwain i fyfyrdod ar egwyddorion cyffredinol ac " achosion ", yn ogystal ag " effeithiau ".

Mae'n debig i lawer yn yr ardaloedd yma yn ystod yr wythnosau diweddaf feddwl o'r newydd am berthynas

Yr Eglwysi a Phroblemau Cymdeithasol.

Gwelwyd nifer fawr o weinidogion o bob enwad mewn gorymdaith gyda'u brodyr diwaith ; bu rhai ohonynt yn anerch y torfeydd, a chlywais am un o leiaf yn gweddio ar blatfform mewn parc cyhoeddus a phymtheg mil yn gwrando mewn distawrwydd parchus.

Gan nad beth am y sêt fawr, mae'r gweinidogion bron yn ddieithriad o ochr y gŵr sydd ar lawr ; mae hyn yn wir, gallem feddwl, drwy'r deyrnas. Mae ambell un, mae'n wir, yma a thraw yn byw yn y canol oesoedd a sawr ffiwdaliaeth ar ei olygiadau ; ambell un

a'i hunaniaeth wedi ei wneyd yn ddall i hacrwch anghyfiawnder ac yn fyddar i gri y gwan : ni allai un o'n hesgobion gael dim yn well i ddweyd wrth nifer o dlodion aeth i ddweyd eu cwyn wrtho na thystio iddo yntau fethu cael i ddau pen ynghyd ar ddeng mil y flwyddyn. Cellwair oedd, mae'n debig, ond cellwair digon dichwaeth oedd a dweyd y goreu.

Ond un peth yw gorymdeithio a chrio mewn torf a chodi llais yn erbyn un achos arbennig o weithredu anghyfiawnder a dioddef cam. Peth arall yw myfyrio ar wreiddiau'r drwg a gofyn o ddifrif,—O ba le a

SUT Y DAW YMWARED ?

Cymharol hawdd ydyw cefnogi protest a gyfiawnheir yn amlwg gan amgylchiadau'r foment. Nid mor hawdd yw penderfynu beth mewn gwirionedd yw swyddogaeth yr eglwys mewn perthynas i broblemau llosgawl gwaith a masnach, cyflogau a phrisiau a safonau byw.

Mewn dosbarth o fechgyn meddylgar (diwaith) mewn ardal weithfaol (gynt), dyma rai o'r cwestiynau ofynnwyd tua wythnos yn ôl. Ai nid celwydd yw'r haeriad mai i Gristionogaeth yr ydym yn ddyledus am y gwelliantau sydd eisoes wedi cymeryd lle yng nghyflwr y gweithiwr ? Ai nid yw'r ffaith i'r esgobion yn streic 1926 gael eu gorchymyn i edrych ar ôl eu busnes eu hunain yn profi y rheolir yr eglwysi gan y gwŷr cyfoethog ? Ai nid yw aflwyddiant yr eglwysi heddiw i'w briodoli yn gyfangwbl i'r ffaith iddynt fethu protestio yn erbyn anghyfiawnder a gormes a rhyfel ? Ai nid oes neges gan Gristionogaeth i gymdeithas yn ogystal ag i'r unigolyn ? Pe bai i Iesu Grist ddyfod yn ôl a gai bregethu yng Nghapel ——— ? (lle yr ymosodwyd ar y gweinidog am iddo bregethu moesoldeb cymdeithasol).

Nid mewn dosbarth yn unig y gofynnir y cwesitynau hyn ond gofynnir hwynt a llawer eraill o gyfryw natur ym mhob man lle y casgl dynion ynghyd i dreulio'r oriau hirion diflas. Mae llawer o'r cwestiynau ofynnir yn ddigon afresymol, a llawer o'r feirniadaeth yn rhy chwerw i fod yn deg, ac yn rhy anwybodus i fod o werth, ond—gwae ni o'u hanwybyddu yn llwyr.

Mae un o'r cwestiynau uchod yn cyffwrdd â chalon y broblem. Ai nid oes gan Gristionogaeth neges i gymdeithas yn ogystal ag i'r unigolyn ? Dyma y broblem,—y berthynas rhwng

CYMDEITHAS A'R UNIGOLYN,

effaith y naill ar y llall ac atitiwd crefydd tuag at y naill a'r llall.

Ai swyddogaeth yr Eglwys yw diwygio yr unigolyn fel y gallo unigolion gyda'i gilydd adeiladu cymdeithas newydd, neu ynte a ellir diwygio a newid *fframwaith* cymdeithas fel ag i roddi i unigolyn

well cyfle i ymateb i apel crefydd a moesoldeb? Ai swyddogaeth crefydd yw achub enaid yr unigolyn yn unig? A *ellir* "achub enaid" cymdeithas fel cyfangorff?

Pe gwrandawai yr Eglwys ar rai o'i chynghorwyr yn y dyddiau hyn ni fyddai ganddi egni nac amser i ddim ond i ymdrin â phroblemau cymdeithasol a chyflawni dyledswyddau cymdeithasol: ni fyddai lle yn ei phwlpud ond i Amos, â'i holl oriau gweddill yntau i'w treulio i "wasanaethu byrddau" ac "ymweled â'r amddifaid a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd".

Ond mae'r cyngor yma yn anwybyddu y ffaith holl bwysig mai nid o'u hadnoddau eu hunain yn unig y gall Amos na'i "ddiaconiaid" weinyddu i anghenion a gofynion y byd sydd yr awrhon. Perygl pleidwyr efengyl gymdeithasol yw anghofio (gan nad beth ddywed athroniaeth) fod yna ddau fyd, y materol a'r ysbrydol, y gweledig a'r anweledig. Mewn geiriau eraill y perigl yw credu y cynhwysir crefydd yn gyfangwbl mewn moesoldeb. Nid oes a fynno moesoldeb ond â'r gyfathrach rhwng dynion â'i gilydd, ac ni ddylai fod angen pwysleisio na all y gyfathrach hyn fod yr hyn ddylai fod heb fod yna berthynas iawn rhwng dyn a Duw yn gyntaf. Dyledswydd gyntaf y Cristion yw

Addoli.

Lle i addoli yw'r Eglwys o flaen pob peth,—cymdeithas i drefnu a meithrin addoliad. Ond na chamsynier ystyr addoliad. Nid gwrando na llefaru, nid canu emyn na pharablu gweddi, ond cymundeb gwirioneddol a bywydol â'r anweledig; drwy y cymundeb hwn yn unig y gall yr Eglwys a'i haelodau ddod yn sianelau i nerth a chariad yr Anfeidrol lifo drwyddynt er iechydwriaeth cymdeithas: rhagor na hyn, o fod y cymundeb yn wirioneddol a bywydol mae y moesoldeb a'r efengyl gymdeithasol yn canlyn.

Y perigl ar hyd y canrifoedd fu wrth gwrs i addolwyr edrych un ffordd yn unig a chredu fod defosiwn yn ddigon, credu mai ecstasi y cysegr oedd diben a choron addoliad. Nid rhyfedd i'r eglwysi gael eu cyhuddo o falchder a hunangarwch ysbrydol. Yr oeddent yn llawn haeddu y cyhuddiad. Un ochrog oedd crefydd, ond o wrthryfela yn erbyn hyn, rhaid gwylio rhag ein cael ninnau yn unochrog i gyfeiriad arall. Cyhuddwyd crefydd o fyw yn hollol i'r byd arall, collir y cwbl o anghofio *fod* byd arall.

Nid oes fawr amynedd gan feirniaid chwerw a thruenus congl y stryd i wrando ar bethau fel hyn, ond nid oes angen i'w blino a'r ymresymiadau hyn o gwbl. Y peth pwysig yw nid eu hargyhoeddi drwy ymresymiadau fod crefydd yn rhagor na moesoldeb, ond eu hargyhoeddi drwy weithredoedd fod y grefydd a broffesir yn gweithio allan mewn moesoldeb, personol a chymdeithasol,—fod proffeswyr crefydd mewn cyffyrddiad ag adnoddau dihysbydd a'u

gwna nid yn unig yn Amosiaid, ond a rydd iddynt yr ewyllys a'r gallu i iachau y drylliedig o galon, i gyhoeddi rhyddid i'r caethion a chaffaeliad golwg i'r deillion, i ollwng y rhai ysig mewn rhydd-deb.

" Wrth ein Ffrwythau "

yr adnabyddir ni gan y dyn yn y stryd, ac mae ganddo berffaith hawl i'n barnu wrth y safon yma, ac mae'r ffrwythau i gynnwys ymdrechion goleuedig i ddiwygio cymdeithas fetha roddi cyfle i unrhyw gorff bratiog a charpiog ddod yn deml i'r Ysbryd Glân. Wrth ein ffrwythau,—ond nid y bobl sydd yn disgwyl ac yn hel y ffrwythau sydd yn gwybod orau am gyfrinach y gwreiddiau a ffynhonnell y pwer bywydol sydd yn gwneyd y ffrwythau yn bosibl.

Mae grym a chyfiawnder yn y cyhuddiad fod yr eglwysi wedi methu am iddynt beidio protestio yn erbyn anghyfiawnder a thrais a gwanc a llid dosbarth a chenedl, ond nid yw'r cyhuddiad yn myned at galon y drwg. Methodd yr offeiriad drugarhau ac ymgeleddu y Samariad ar ochr y ffordd am iddo fethu yn gyntaf yn y deml lle y bu yn " addoli " i gael golwg glir ar gymeriad ei Dduw a'i bwrpas i'r byd. Lle y bo diffyg gweledigaeth y mae y bobl yn marw, a gellir dweyd mai dyna ydyw addoliad, gweledigaeth sydd yn adnabyddiaeth o'r Ysbrydol, adnabyddiaeth sydd, i raddau anfeidrol ddyfnach ac helaethach, yn golygu yr un peth i ddyn ag ydyw adnabyddiaeth o gyfaill rydd ysbrydoliaeth a nerth iddo bob tro y cyferfydd ag ef.

Cytunaf â'm cyfeillion yn y dosbarth fod yr Eglwys wedi "methu", ond ymddengys i mi nad yw yr hyn ddywedant hwy yw " achos " ei methiant ond " effaith " methiant mwy hanfodol, methiant i adnabod y Duw byw ac i'w addoli mewn ysbryd ac mewn gwirionedd.

Yn y pen draw nid oes nifer o wahanol fathau o efengylau,—efengyl " gymdeithasol ", efengyl " bersonol ", efengyl " foesol ", efengyl " ysbrydol ".

Un Efengyl

sydd, a honno'n cyhoeddi fod y byd i gyd dan reolaeth Duw sydd yn ewyllysio Cariad a Chyfiawnder ac yn gweithio allan ei amcanion ym mywyd yr unigolyn ac yng nghwrs hanes a datblygiad cymdeithas. Nid yw'r " safle gymdeithasol " wedi'r cyfan ond yn adlewyrchu mesur ein gweledigaeth o'r Duw hwn a mesur ein ufudd-dod i'r weledigaeth.

Dylid dweyd un peth arall : ni ddylid gadael yr argraff fod bod " yn yr ysbryd iawn ", a defnyddio y frawddeg yn yr ystyr gul roddir iddi fynychaf, yn ddigon er diwygio cymdeithas a sefydlu Teyrnas Dduw ar y ddaear. Gwna " gwir addoliad " yn yr ystyr

y defnyddir y frawddeg yn y nodiadau hyn oleuo y pen yn ogystal a thanio y galon a chryfhau yr ewyllys. Rhaid i'r diwygiwr cymdeithasol wrth wybodaeth o ffeithiau a rhyw fesur o gynefindra ag egwyddorion y gwyddorau cymdeithasol, yn ogystal a brwdfrydedd dros gyfiawnder a thosturi dros y gwan a'r caeth. Ceir mwy o wres nag o oleuni yn aml ar lwyfannau cyhoeddus, a thrwy hyn haeddir gwawd y gwybodus, er iddo fod yn ddirâs.

Mae yna hen weddi yn y "Sarum Primer" (1558). Diau fod rhywun wedi ei chyfieithu i'r Gymraeg yn deilwng, ond nid oes gennyf ond cyfieithu yn fratiog fy hun :

Duw fo yn fy mhen,
Ac yn fy neall ;

Duw fo yn fy llygaid,
Ac yn fy ngweled ;

Duw fo yn fy ngenau,
Ac yn fy llefaru ;

Duw fo yn fy nghalon,
Ac yn fy meddwl ;

Duw fo ger fy niwedd,
A cher fy ymadael.

Duw yn holl egnion personoliaeth ; Duw yn holl ysgogiadau y meddwl a'r galon a'r ewyllys ; gwaith yr Eglwys yw sicrhau fod hyn yn wir am ei holl ddeiliaid. O sicrhau hyn ni chaiff yr un "broblem" bersonol na chymdeithasol ei hanwybyddu, ac ni fydd sôn am fethiant.

Y Llwybrau Gynt lle bu'r Gân.

HEDDIW 'r ydym oll yn caru bryniau a mynyddoedd ein gwlad, a'i cheunentydd, a'i llynnoedd a'i rhaeadrau gwyllt, sy'n disgyn nes

SYNNU PENSYFRDANU DYN.

Ymdyrrwn i fwynhau swyn y môr yn yr haf, a'i angerdd ystormus ar ambell ddydd o aeaf,.

Y mae natur yn ei haruthredd rhamantus yn apelio at bob dyn diwylliedig y dyddiau hyn.

Pan ydym wedi bodloni ein llygaid ar ogoniant Cymru, ac yn rhy fynych cyn hynny, rhuthrwn i hafannau Norwy neu Alpau'r Yswistir, neu fannau eraill, gorau po bellaf, i borthi ein golygon ar raeadrau a phigdyrau gwynion, nad yw'r hyn a welwn gartref, yn ôl ein tystiolaeth wedi dychwelyd, ond ambell i bistyll a thwmpath gwahadden i'w gymharu â'r rhyfeddodau estron.

Ond, sylwer mai heddiw, a chan ddynion diwylliedig ein dyddiau ni, y mwynheir yr agweddau hyn ar natur. Nid oedd yr hen bobl gynt yn edrych ar wylltineb môr a mynydd gyda chyffelyb deimladau.

Ar Fanc Sion Cwilt, hyd yn oed yn ein dyddiau ni, nid yw'r ffermwr druan yn prisio fawr am olud lliwiau'r haf a'r hydref ar fantell ymerhodrol Sion, a'i haur, a'i phorffor a'i hemrallt. Na, ni wêl amaethwr caled ei fyd ond eithin mân, a grug, a rhedyn, yn lle cnwd toreithiog o geirch, a barlys, a gwenith.

Ac nid yw'r brwyn, a blodau'r gôg, a fflur peraroglus y drain yn troi'r gweundir yn gyfoeth iddo ef, a esyd fwy pwys ar lenwi crombil ei blant, a thalu'r rhent, nag ar agweddau barddonol ei feysydd ; yn wir y mae wedi clywed si fwy nag unwaith nad gŵr da am dalu'r rhent yw'r prydydd ; ac am y taclau yma sy'n d'od o Lunden a Chaerdydd i ganmol golygfeydd y wlad, digon hawdd iddynt hwy siarad, rhai sy'n cael eu talu'n dda rownd y flwyddyn am wneud y nesaf peth i ddim o waith, a chadw eu cefnau'n sych yn y fargen.

Ni chlywais i'r hen fechgyn garw gonest a oedd yn arfer trigiannu ar ymylau Rhos yr Hafod gynt, yn sôn erioed am ogoniant lliw a phersawr y rhos yn niwedd haf ; y peth nesaf i fwyniant a gawsent hwy yno oedd ambell i gwrs sgwarnog yn yr eira tuag amser Nadolig yma.

Yr oedd y benywod yn hoffi'r ardd a'i border bach ; ond difyrrwch diniwaid y gwragedd oedd y blodau ; y tato, a'r panas, a'r garets oedd yn ennyn edmygedd y gwŷr.

Yn llenyddiaeth yr Hebrewr, y Rhufeiniwr, a'r Groegwr, ychydig o edmygu natur er ei mwyn ei hun a geir ; a phan glodforir anian, ei hagweddau dof a heddychol a gaiff sylw.

Ystyriwch lili y maes.

Yr ardd, y maes gwrteithiedig, a'i goed plân, y rhesi rheolaidd o brennau cysgodol, y dyfroedd yn rhedeg i waered i ffrwythlonni'r dolydd, y meirch, y gwartheg a geir, a'r preiddiau ar fil o fynyddoedd ; dyna'r pethau a apeliai at galon yr hen bobl gynt.

Ac nid oeddynt yn mentro ar y môr ond yn niogelwch annhymestlog yr haf. Fel y canodd Horas :

> "Diau rhoed tarian dderw ar ei fron, a phres triphlyg,
> a ddug ei lestr brau 'r tro cyntaf oll i herio'r weilgi."

Nid oedd fawr diddordeb chwaith gan feirdd a llenorion yr hen fyd a'r oesoedd canol yn y dyn tlawd, fel dyn, er y pwys a roes yr Efengyl ar werth yr enaid unigol. Fel arfer, yr oedd yr Athro Mawr ymhell o flaen Ei oes, a deil felly o hyd.

O safleoedd uchel bywyd, (a siarad yn faterol), y cymerth Shakespeare ei holl arwyr, a'i arwresau. Rhywbeth i lenwi bwlch, neu i fod yn ddifyrrwch i'w feistr oedd y gŵr o isel radd.

Nid oedd neb hyd yn hyn wedi canfod rhamant iselion dynoliaeth, mwy nag ardderchawgrwydd cedyrn binaclau 'r ddaear.

Yn y ddeunawfed ganrif, oes, nid o wres angherddol barddoniaeth, ond oes y rheswm oer a chlir, y daeth goleuni gyntaf i dreiddio i aneddau tywyll y gwreng, i wyll fforestydd y gwledydd morwynol dros y môr, ac i'r niwl a'r cymylau a orchuddia lawer o leoedd anial ac ysgythrog y byd.

Paham y daeth y cyfnewidiad hwn dros feddyliau ysgrifenwyr y ddeunawfed ganrif sydd gwestiwn yn gofyn cyfrol fawr i'w ateb.

Dywedir mai teithwyr i'r Yswistir yn disgrifio arddunedd y wlad honno a ddechreuodd y mudiad rhamantaidd yn Ffrainc, mor bell ag y mae a fynno natur allanol â'r mater. Mae'n dra thebyg fod cyfleusterau teithio wedi dyfod dipyn yn well i'w cymharu â'r hyn a fuasent gynt, a'i bod yn fwy diogel i deithio mewn lleoedd anghysbell a gwyllt nag ydoedd yn yr hen amseroedd.

Dichon hefyd fod a fynno'r nwyf, a'r nerth a'r teimlad o iechyd hoenus a ddaw o drafaelu yn yr awyr bur agored, a'r mwyniant newydd hwn. Mae'n syndod fel yr ymbrydfertha'r pethau mwyaf ddiobaith i olygon dyn hoyw a hapus. Mae'r allanol bob amser yn adlewyrchu'r mewnol.

Clywais un wedi yfed gwydraid go gryf yn dweyd : Mae'r byd eisioes yn dechrau cymryd arno wawr rosynnaidd.

Gwell na'r un gwydraid i daenu swyn dros y byd yw iechyd a hoen ac ieuenctid.

Ond pan osodais bin ar bapur, nid am ogoneddau natur y bwriadaswn sôn, ond am y diddordeb newydd yn y dyn tlawd, ac mewn pethau hen, a llwyd a chyffredin, a ddeffroes yn ein gwlad rywfaint dros ddwy ganrif yn ôl ; rhan o'r un mudiad. Cawn ef ym Marwnad Gray : i'n pwrpas ni cymerwn hi yng ngwisg werinol yr hen Ddafis Castell Hywel :

Y mae'r gemau a'r perlau puraf
Gorau 'u lliwiau is y llo'r,
Dan y tonnau'n gudd mewn creigiau
Yn nyfnderoedd mawr y môr.

* * *

Yma f'allai caed rhyw Hampden
Doeth, a chalon ddewr o ddur,
A geryddai un gormeswr
Fynnai dreisio darn o'i dir ;
A rhyw Filtwn heb ei fawrglod
Mewn distawrwydd is ein tra'd,
Ac ail Gromwel gwrol, grymus,
Rhydd o 'lanas pawb o'i wlad.

Ymysg bryniau niwliog ac anhygyrch yr Alban yr oedd Mc Pherson wedi casglu defnyddiau ei Ossian, yn sôn am y pethau pell a fu gynt, a brwydrau oesoedd maith yn ôl. Erbyn hyn 'r oedd atsain y gâd wedi darfod ymron, a cheyrydd yr hen ryfelwr yn adfeilion :

> Edrychais ar furiau Balclutha, ac yr oeddynt yn anghyfannedd ; y mae'r glaswellt rhonc yn tyfu ar y gwelydd, a thremia'r llwynog allan o'i ffenestri.

Y mae sŵn udgorn rhyfel wedi peidio, a'r gân a fu'n gwroli'r rhengau wedi distewi. Nid erys ond y llwybrau creigiog ac unig, a'r niwloedd yn cerdded ar hyd-ddynt megys ysbrydion arwyr y cyn-oesoedd, yn rhithiau oer a mud.

O dan yr un ysbrydoliaeth ag Ossian cawn Ieuan Brydydd Hir, yr hen Gardi crwydr ansicr ei droed a gwyllt ei athrylith, yn cwynfan ar adfeilion llys Ifor Hael, ac am adfeilion tristach gobeithion ei fywyd ei hun :

Llys Ifor Hael, gwael yw'r gwedd,—yn garnau
Mewn gwerni mae'n gorwedd,
Drain ac ysgall mall a'i medd,
Mieri lle bu mawredd.

* * *

Y llwybrau gynt lle bu'r gân
Yw lleoedd y ddyllhuan.

Ac ar ôl Ieuan, ac efallai dan ei ysbrydoliaeth yntau yn ei dro, cawn yr hen Ddafis yn canu cwymp Ffynon Bedr :

Y ddallhuan fydan fydd
Yn gori yn ei magwyrydd.

* * *

Troed ei gain, lydain aelwydau—'n erddi
A gwyrddion weirglodau,
A mynych yr ych o'r iau
Bawr lawr ei wych barlyrau.

Troes y Cymry eu golygon yn ôl at y gogoniannau a fu, a chanasant gŵynion eu myned heibio. Darganfuwyd rhamant hen lenyddiaeth ein gwlad, o dan ddylanwad yr Esgob Percy ac eraill. Yn y gogledd bu Morusiaid Môn yn tyrio 'r hen fwngloddiau cyfoethog ; yn y dê bu Iolo Morgannwg yn treulio oes hir wrth yr un gwaith ; ac yng Ngheredigion bu Ieuan Brydydd Hir yn brysur wrth yr un gorchwyl. Ac ni pharhaodd yr un o'r rhain i aros yn nhref ychwaith ; buont yn teithio o blas i blas ac o lyfrgell i lyfrgell, gan dreulio oriau meithion yn copio llawysgrifau o'r hen femrynnau mall.

Y dydd o'r blaen bum ar ymweliad ag Eglwys Lledrod, lle gorwedd gweddillion Ieuan ; gwir fod tabled o brês ar fur yr Eglwys i'w goffhâu, ond ni wyddai neb i sicrwydd am fangre ei fedd ! Darllennwn o hyd ei gywydd " Hiraeth Cymro am ei Wlad " neu yn hytrach gân Dyhead y Bardd am Fro Glan Teifi Wen, a chanmolwn ei waith fel ysgolor, gwlatgarwr, a phrydydd, ond, ni wyddom y modd y bu farw, na'r man y'i claddwyd ; ac wrth grwydro'r meysydd diffaith trist o gylch ei hen gartref ar hwyr llaith a niwliog teimlem nad erys dim ond

Y llwybrau gynt lle bu'r gân.

Erbyn heddiw mae gogoniant bryniau Ceredigion yn amlwg i'r lleia 'u dysg ohonom ; carwn ei morfa a'i mynyddoedd ; hoff gennym ei phobl hen ffasiwn, a hanes ei helynt ; edmygwn ei hen adfeilion fel Ystrad Fflur a Chastell Aberystwyth ; hoff gennym ei beirdd a'i llenorion o amser y Bardd ysgawnfryd o Fro Gynin, i brydydd olaf yr eisteddfod leol ; ac am ein dysgu yn hyn oll yr ydym yn ddyledus i'r hen arwyr gynt fel Iolo, Lewis Morus, ac Ieuan Brydydd Hir ; ac

Er y wawrddydd pan ddistyllai
Dafydd gynt ei gywydd gwin,
Tecach yw rhianedd Cymru
A melysach yw eu min ;
Nid oes ond y bardd
A dry'r byd yn ardd ;
Y mae'r llwybrau i gyd lle cerddo
Yn fil mwynach, harddach erddo.

SARNICOL.

Llith.

ANODD credu fod un cylchgrawn yn y wlad yn teilyngu (nac ychwaith yn cael) sylw manylach meddylwyr sydd o ddifrif na'r *Hibbert Journal*. Daw allan, fel y gwyddis, bob chwarter ac mae hynny yn ddigon aml ; gwyn fyd y gŵr all " dreulio " yr oll o'i gynnwys mewn tri mis. I ni, bobl gyffredin, mae llawer o ymborth yn yr " Hibbert " yn rhy gryf o gryn dipyn, ond ar waethaf ofn y poenau ni ellir peidio gwneyd rhyw ymdrech, dro ar ôl tro, i gyfrannu o'r wledd, pe ond i hel y briwsion.

Mae rhifyn Ionor mor gyfoethog ag erioed, mewn maeth ac amrywiaeth. Trafodir llawer o broblemau : mae y llith cyntaf yn un gwir ddiddorol,—athro mewn athroniaeth yng ngholeg Harvard, Unol Dalaethau, yn ysgrifennu ar

" Ystyr Marwolaeth ".

Er i ddyn feddwl a dychmygu'n helaeth am anfarwoldeb, meddai'r athro, nid yw ei holl lafur meddyliol yn golygu ei fod wedi ennill sicrwydd. Yr oll a brofir gan yr holl gynyrch llenyddol ar broblem anfarwoldeb yw fod dyn yn anfodlon peidio credu. Ceisio ydym beunydd i gyfiawnhau ffydd sydd yn annwyl i ni. Ni ellir profi anfarwoldeb fel y gellir profi problem mewn rhifyddiaeth, a rhaid esbonio bywiogrwydd y ffydd drwy bwysleisio fod ei gwreiddiau mewn *teimlad* ac *anghenion ymarferol*. Addefa'r athro nad oes ganddo yntau brawf, ond mae yntau yn gobeithio, ac amcan ei lith ydyw cyfiawnhau y

Dyhead am Anfarwoldeb.

Mae yn flin gan ddyn feddwl am ei farw ei hun am fod arno arswyd cael ei ddiddymu ; mae cael byw yr ochr draw yn dda yn ei olwg am fod credu mewn anfarwoldeb yn dileu ei arswyd. Mae dyn yn ofni diddymdra am fod ganddo rywbeth beunydd heb ei orffen,—mae yn edrych ymlaen at rywbeth o hyd. Tra y pery i wneyd hyn, ei ddymuniad yw am gael byw ; ni all ddychmygu am y foment yn dyfod, yfory nac yn y dyfodol pellach, pryd y bydd yn fodlon cael ei ddiddymu. Mae ei ddyhead beunydd am sicrwydd nad oes derfyn ar gyfle i wneyd yn well.

Ond beth am

Ystyr marwolaeth dyn i eraill

—pobl all fod yn ei garu neu ei edmygu ?

Esgeulusir y wedd yma o'r broblem gan athroniaeth fel rheol, ond nid felly gan Gristionogaeth. Mae'r gwasanaeth claddu yn mynegu gofal am dynged y marw a phryder am golled a thrallod y byw. Mae colli un annwyl yn peri clwyf poenus. Gellir o bosibl liniaru y poen drwy galedi y galon, ond golyga hyn beri i Angeu golli ei golyn drwy ddinystrio y goreu sydd ynnom. Mae y pris yn rhy uchel.

I rai mewn galar yr unig obaith fedr fodloni cariad eu calonnau ydyw'r gobaith y bydd i'r marw fyw,—y gobaith na all angeu dorri y llinynnau a'u rhwymodd wrth yr hwn sydd bellach tu hwnt i olwg cnawd. Dyna dystiolaeth y galon.

Beth ddywed y meddwl?

Ai da yw i'r marw gael byw eto? Mae'r ateb yn syml. Rhaid i unrhyw athroniaeth weld da mewn creu dyn i ofidio o'i ddiddymu. Da yw dyfod bywyd i'r byd i ddechreu, ac mae dyn ar hyd ei oes yn tyfu nes datblygu personoliaeth gyfan a dihafal, a phwy bynnag yw nid oes neb arall yn union fel efe; ac o'i fyned mae bwlch a erys yn fwlch.

Mae yn wir fod dyn yn byw yn ei feddyliau a'i weithredoedd a edy ar ei ôl, ond mae dyn yn fwy na'i feddyliau a'i weithredoedd i gyd. Ac ni all y meddwl rhesymol ddygymod â'r syniad y gall y peth cyfoethog a thoreithiog yr hyn yw personoliaeth gyflawn, fod at drugaredd amser a lle.

Ond ni ddylid colli golwg ar y ffaith fod gwedd arall i'r darlun. Gall dyn golli blas ar fyw; gall ei fywyd fod mor llawn o gasineb ac ofn fel y daw i ddisgwyl am

Farwolaeth fel dihangfa felus.

Ond nid yw angeu o herwydd hyn yn dyfod yn *ddaioni*, ond yn hytrach y *drwg lleiaf*.

Mae yn bosibl i ni hefyd, o feddwl am farwolaeth dyhiryn diwerth, deimlo yn falch am fod rhywbeth drwg wedi dyfod i ben, ond ni ellir aros yn y fan yna. Nid yw'r drwg a wnaed wedi ei ddileu am i'r drwg-weithredwr farw. Mae y drwg yn aros yn rhan o'i hanes, ac ni ellir ei ddadwneyd ond drwy i'r drwg-weithredwr gael parhau i fyw. Ni ellir unioni y cam a wnaed ddoe ac heddiw ond yn y dyfodol. O'r safbwynt yma mae anfarwoldeb yn dyfod yn angenrheidiol er rhoddi cyfle i wneyd i fynu am y drwg.

Mae yn bosibl dadleu wrth gwrs y gall y dyfodol roddi cyfle i wneyd rhagor o ddrwg, a chyfle i ddadwneyd y da. Ond mae hyn yn peri i ni ofyn i ni ein hunain y cwestiwn hanfodol,—Beth yw natur ein cred ni am yr hollfyd a'i hanes a'i dynged?

Ffydd neu Anobaith hollol?

Yn y pen draw ni all y dyhead am anfarwoldeb godi ond oddiar ffydd fod yn rhaid i'r da yn y diwedd orchfygu.

Gwelir felly fod rheswm yn tystio y byddai yn dda i ni gael byw ar ôl marwolaeth y corff, ond nid yw hyn yn *profi* anfarwoldeb. Ond am ini resymu fel hyn, deuwn *i* feddwl y *cawn* fyw.

Ar y llaw arall dadleuir yn aml fod credu mewn byd a ddaw yn peri i ni esgeuluso y byd a'r bywyd sydd yr awrhon. Ond y gwir yw mai y peth mwyaf deifiol ei ddylanwad ar fywyd yw *angh*rediniaeth.

Gwelir fod ymresymiad y llith yma hyd yn hyn mewn harmoni â'r hyn sydd hanfodol yn y ffydd Gristionogol mewn anfarwoldeb. Mae ein ffydd mewn anfarwoldeb yn gorffwys nid ar brofion rhesymegol, materol na damweiniol, ond ar fod gennym

Ffydd mewn Duw

sydd ganddo ewyllys a gallu i ddwyn pob peth da i ben.

Ond siomir ni rywsut o gael fod yr athro yn symio y cwbl i fynu drwy ddweyd mai'r dyn doeth yw'r dyn sydd yn dymuno cael byw ond heb fod arno ofn marw. Ym mhellach dywed wrthym mai y gobaith goreu am y dyfodol yw, nid y gobaith wna yn fach o'r presennol ac a feddylia am y dyfodol yn unig fel cyfle i wneyd i fynu am fethiantau y presennol, ond y gobaith a ddyfodol fydd yn cadarnhau pob peth sydd yn oreu yn y byd sydd yr awrhon.

Mae hyn i gyd yn wir, a gwir angen am ei bwysleisio, ond ai nid yw rheswm a theimlad, heb sôn am "ffydd" yn gofyn fod y dyfodol yn gwneyd rhagor na *chadarnhau* y presennol?

Gwobr gwneyd daioni yw gweld daioni mwy ac uwch o hyd, a disgwyliwn i egwyddor tyfiant a datblygiad weithredu, nid yma yn unig ond drwy bob byd a ddichon fod dan lywodraeth y Duw a'n creodd a'n golygon i fynu.

T. L. J.

Priodas.

Ionor 2, yng Nghapel Shiloh, Llanbedr, unwyd mewn glân briodas, Enoch Davies, Relieving Officer, Mill Street, Llanbedr â Miss Rosina Herbert Megicks (Rowie), Corner Shop, Llanbedr, gan y Parchn. W. Llewelyn Davies, Mr. Herbert (ewythr y wraig ifanc) a T. O. Williams, M.A., ac o flaen y Cofrestrydd E. D. Rees. Bydded eu bywyd yn fywyd gwyn a gwenau'r nef a foed arnynt.

Marwgofion.

Dydd Iau, Hydref 11, 1934, claddwyd wrth Gellionnen, BRIAN, plentyn Griffith a Neta Thomas, Graig, Trebanos. Bu farw y dydd Llun blaenorol yn yr Isolation Hospital, Pontardawe, yn 10 mis oed.

Aeth diniweidrwydd at ei Dduw,
Dros fyth i fyw'n ei burdeb.

Dydd Gwener, Tachwedd 30, 1934, bu farw WILLIAM WILLIAMS, Swansea Road, Trebanos, yn 66 mlwydd oed. Bu am flynyddoedd yn arweinydd y gân yng Ngellionnen a'r Graig. Efe ydoedd arweinydd Cymanfa'r Pasc diwethaf. Fel ei frawd Johnnie, bendithiwyd ef â thalentau disglair, ac fe'u defnyddiodd yng ngwasanaeth y cysegr. Nid yn unig ni yma fydd yn dioddef o'i golli ond yr enwad yn gyfan. Defnyddiodd ei oriau hamdden i gyfoethogi ein caniadaeth. Pwy na deimlodd ei enaid yn gwresogi ynddo wrth ganu'r dôn " Ynysmeudwy " ? Ac nid yn unig ein cynorthwyo mewn cerddoriaeth a wnaeth efe ond yr oedd ei awen bob amser yn barod i'n gwasanaethu. Dyn llawn ydoedd Willie Williams, un yn caru'r gwir a'r prydferth, a daioni ei ysbryd diddichell yn llewyrchu'n ei fywyd. Yr ym ninnau'n drist oherwydd colli ohonom gawr o'n rhengoedd. Claddwyd ei weddillion wrth Gellionnen y dydd Mawrth canlynol, y Parchn. J. D. Jones, D. John a Mr. Lewis Morgan yn gwasanaethu. Duw a fyddo'n dŵr i'r weddw, y ddau fachgen a'r lliaws perthynasau yn eu galar.

Dydd Llun, Rhagfyr 10, 1934, bu farw HANNAH REES, Pheasant Bush, Trebanos, yn 71 mlwydd oed. Bu Mrs. Rees yn wael ei hiechyd am amser maith, ond tra gallai nid oedd ei lle'n wâg yn y Capel. Yn ifanc fe'i gadawyd yn weddw, a chododd i fyny ei theulu'n anrhydeddus. Fe'i doniwyd ag ysbryd gweithgar, heddychlon, ac hiraethwn ninnau ar ôl " gwir fam yn Israel ". Daearwyd ei gweddillion wrth Gellionnen y dydd Iau canlynol, y Parchn. J. D. Jones, D. John a E. D. Hopkins yn gwasanaethu. Yn galaru ar ei hôl y mae tri o feibion, dau ohonynt yn Nhrebanos, y Cynghorwyr L. W. a J. L. Rees, a dwy ferch ynghyd a lliaws o berthynasau. Duw a fo'n gysur iddynt hwy, ac heddwch i'w llwch hithau mewn tir a oedd mor gysegredig ac annwyl iddi.

Rhagfyr 25ain, bu farw SARAH EVANS, gynt o Felinfach, Llanwnen, yn 81 oed. 'Roedd yn chwaer i'r diweddar John Evans, Trebanos. Gartref yn y Felin y bu yn ystod ei holl fywyd. Yn ddiweddar cartrefai yn Nhalgrwn, lle cafodd bob gofal a thiriondeb hyd ei marw. Claddwyd hi y dydd Gwener canlynol, a gwasanaethwyd gan y Parch. Dewi Jones.

Ar ddydd Nadolig 1934, yn 50 mlwydd oed, bu farw DAVID DAVIES, Carrarra House, Llanbedr, wedi cystudd hir a chaled—ac wedi gorwedd blwyddyn ar ei wely cystudd. Dechreuodd ddihoeni ddwy neu dair blynedd yn ôl a gwanychai yn raddol ac yr oedd y diwedd yn ollyngdod iddo. Dyn tawel ydoedd a medrid credu ar yr olwg gyntaf ei fod yn oer a phell oddiwrthych ond o'i adnabod doech i weld fod calon fawr a gwresog yn curo yn ei fynwes. Yr oedd ganddo ardal eang yn ei law fel monumental Sculptor ac fe welir ei eisiau—yn arbennig gan ei briod ieuanc a'i blant bach—ac un ohonynt yn yr Ysbyty yn Aberaeron. Gadawodd hefyd frawd (y Parch. J. Carrara Davies) ac un chwaer i alaru ar ei ol. Claddwyd ym mynwent Eglwys Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Parchn. T. O. Williams, M.A. a D. Jones, Noddfa—yr angladd yn anghyoedd.

Ionor 3, yn 76 mlwydd oed, bu farw MARGARET DAVIES, annwyl briod Thomas Davies, Gôf, Delville, New Street, Lampeter. Yr oedd wedi mwynhau iechyd da ond ers dwy neu dair blynedd yr oedd y corff iach wedi'i siglo ond daeth y diwedd bron yn ddirybudd. Gwraig dawel a mwynaidd ydoedd ac iddi galon gynnes. Yr oedd yn un o'r 39 a ymaelododd y Sul cyntaf hwnnw yn Nhy'n-rhewl. Y mae y fintai fach yn lleihau'n gyflym gyflym. Yr oedd Mrs. Davies wedi bod yn selog tra gallai, ac fe welir ei heisiau mewn llawer cylch. Gŵyr llu am ei llais hyfryd yn y côr, am ei sêl a'i ffyddlondeb gyda gwaith yr eglwys ac am ei gofal a'i thiriondeb ar ei haelwyd. Yr ym yn colli'r ffyddloniaid ac y mae eu lle yn wâg. Gadawodd briod yn unig, dau fab (un ohonynt yn yr Affrig bell heb wybod eto farw ei fam), ac un ferch heblaw llu o berthynasau i wylo ar ei hôl. Claddwyd hi ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd gan y Gweinidog, yr angladd yn anghyoedd.

Ionor 8, 1935, yn 66 mlwydd oed bu farw MARY EVANS, Wern, Cellan,—hen forwyn Miss Jones, Y Wern—wedi bod yn dihoeni'n hir ond yn ddisymwth ar y diwedd. Wedi dod i'r ardal ydoedd, ond wedi ymserchu yn y Wern ac yng Nghaeronnen. Benyw dawel, garedig a diymhongar ac iddi air da gan bawb a chan y gwirionedd ei hun. Treuliodd ei hoes ar ei thyddyn bach, a hunodd, nid gyda'i theidiau, ond gyda rhywrai a anwylai yng Nghaeronnen. Gwasanaethwyd yn y Wern gan y Gweinidog ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog a'r Parch. Aneurin Jenkins, Capel Erw. Gadawodd frawd a chwaer a pherthynasau eraill i wylo o'i cholli.

Dydd Llun, Ionor 8fed, bu farw MARY ANN JONES, Penrhiw, Silian, gynt, yn 39 oed. Merch dawel ac addfwyn ydoedd, heb fawr sôn amdani. Claddwyd hi ym mynwent Capelygroes, a gwasanaethwyd gan y Gweinidog a'r Parch. David Evans.

Aeth diniwed fad drwy'r adwy,—i'w harch
Gwnaeth ddianc o'i chymwy ;
Caiff gwmni tad a mam mwy,
Ar draethell heb gur drothwy.—Cribin Bach.

Dydd Gwener, 18fed Ionawr. Trist iawn yw cofnodi am farwolaeth sydyn ac annisgwyliadwy GRIFFITH PHILLIP JENKINS, Glyn, Drefach, Llanwenog, yn 59 oed. Gôf ydoedd wrth ei alwedigaeth, fel amryw o'i dylwyth, ac ar ôl bod wrthi yn pedoli drwy'r dydd, ac i bob golwg, yn ei iechyd arferol, aeth i wneud cymwynas a chyfaill ac ar ei ffordd adref anadlodd ei anadl olaf. Nai ydoedd i'r diweddar Barch. John Davies, Tancoed, ac adnabyddid ef gan gylch eang fel gweithiwr diwyd a chymwynaswr parod. Cydymdeimlir yn fawr iawn â'i weddw sydd yn rhwym gan afiechyd, a'i ferch ieuengaf sydd gartref, ac hefyd a'i ddwy ferch arall a'r mab sydd mewn cartrefi eu hunain. Claddwyd y dydd Mawrth dilynol ym mynwent Capel-y-Bryn, ac yn absenoldeb y Gweinidog yn herwydd afiechyd, gwasanaethwyd gan y Parch. Dewi Jones ac yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. Ben Davies, Llanwenog, Lewis Williams, Morris Jones a T. Oswald Williams.

Y CROCHAN.

Y Crochan i dân ordeiniwyd,—a'i foch
Wrth fachau bardduwyd ;
Torheula ar bwynt yr aelwyd,
Yn fawr ei barch am ferwi bwyd.

Nodion yr Eglwysi.

ABERYSTWYTH.—Ar yr 8fed o Ragfyr y cafwyd Gwyl De Urdd y Benywod y gaeaf yma (unwaith y flwyddyn y ceir un). Daeth cynulliad gwir dda ynghyd i fwynhau'r te a'r adrodd a'r canu a ai ymlaen gydag ef. Adroddodd a chanodd plant y gynulleidfa yn bwrpasol iawn a chafwyd cân swynol gan ferch o'r coleg. Cafodd y plant a phob aelod o'r Urdd ryw anrheg neu gilydd gan Miss Marles Thomas (o fendigaid goffadwriaeth), a chymrwyd mantais o'r amgylchiad gan y gynulleidfa i gyflwyno anrheg fechan i Mr. a Mrs. T. Simon Jones ar achlysur eu priodas, fel arwydd o'n teimladau gorau iddynt am y dyfodol.

CAPELYGROES.—Cynhaliwyd Christmas Tree a Chyngerdd yn y lle uchod nos Iau, Ionor 3edd. Rhannwyd anrhegion i'r plant oddiar y goeden addurnedig gan Father Christmas y nos—Miss Megan Thomas, Brynderw. Hyderwn y bydd mwy o blant y flwyddyn nesaf eto. Diolchwyd yn gynnes i bawb ar y diwedd.

CAPEL-Y-BRYN.—Noson lawen oedd nos olaf y flwyddyn, a'r Ysgol Sul a'i chyfeillion yn cael gwledd neu *Christmas Tree Party* fel y'i gelwir gan Urdd y Benywod. Yr oedd y paratoadau yn fwy na digon er y lliaws a atebodd y wahoddiad. Llywyddes y gangen yw Mrs. Emlyn Jones, Bryngrannod, ac iddi hi y diolch am wisgo y goeden. Daeth plant yr Ysgol Sul yn eu tro yn ôl eu cysondeb i ddewis eu hanrhegion oddi arni, ac wedyn plant o enwadau eraill oedd yn bresennol, ond i bob golwg yr oedd y goeden yn llwythog o hyd, a gorfu gwahodd yr henuriaid er ei llwyr ysgafnhau, a rheini eto yn ôl eu cysondeb—a Griffith Jones, Castle Green ar y blaen. Y wisg arferol oedd am " Father Christmas " ond yr oedd y gŵr oedd ynddi, sef Tom Jenkins, Glynmeherin, yn anarferol gymwys yn y swydd. Rhoddodd y plant raglen dda o ganeuon ac adroddiadau, ac o'r gadair gan Miss Jenkins, Tancoed, cafwyd geiriau cysurlawn doeth. Llywyddwyd gan y Gweinidog.

ALLTYPLACA.—Pleserus yw cofnodi am fynegiad o barch ac edmygedd i un o'n plith. Gwnawd hyn i Mr. Dan Davies, L.T.S.C., Belan House, gan Gôr Llanybyther, y sydd dan ei arweiniad. Un noson yn ddiweddar ar ôl gwledd, anrhegwyd ef â *Metronome* prydferth, a Mrs. W. J. Williams, Y Neuadd, yn ei gyflwyno, ar eu rhan. Treuliwyd amser hyfryd mewn cystadleuaethau ar y pryd, dan arweiniad Llywydd y Côr, sef y Parch. S. E. Bowen, ac yn cael ei gynorthwyo gan Mr. Tom Davies, Gelli House—un o'r bechgyn mwyaf gwasanaethgar a gododd y Parch. David Evans yng Nghribin. Difyrrwch dymunol oedd nodwedd y cyfarfod drwyddo.

BRONDEIFI.—Dydd Mercher, Ionor 8, cafodd Ysgol Sul Brondeifi ei Thê a'i Xmas Tree. Rhoddwyd y wledd gan deulu Cilgell-uchaf a theulu 19, Harford Square, Llanbedr, a chafwyd gwledd ddi-ail. Yn yr hwyr cafwyd Xmas Tree a Chyngerdd ac anrhegwyd aelodau'r Ysgol Sul a oedd wedi cadw'r ysgol yn ddifwlch.

Yn ystod mis Ionor, euthom ym Mrondeifi i gan punt o gost er cynhesu'r capel a rhoesom i mewn y Paragon Heating System. Ni bydd esgus mwyach dros gadw o'r capel ar Suliau oer oherwydd y mae'n fwy cynnes yn y capel nag ar lawer aelwyd.

Bu Côr y Dref yn datganu " Messiah " pwy noson yn y dref, a heblaw bod llawer o'n cantorion yn y côr, un o'r artists oedd Catherine Wendol o Lundain. Y mae llu wedi gwrando ar Catherine Wendol ar y Diwifr ond nid wyf yn sicr y gŵyr pobun mai wyres yr hen frawd diddan a selog ym Mrondeifi—Timothy Evans, Dolcoed—ydyw Catherine Wendol. Y mae ganddi lais hyfryd a medr ganu. Yr ym yn falch o'i llwyddiant ym myd y canu.

J. D. Lewis a'i Feibion. Argraffwyr, &c., Gwasg Gomer, Llandysul.

FOUR GOOD BOOKS.

The Unitarian Heritage.
(The most complete history of the Unitarian Movement) by Earl Morse Wilbur. ... ... 7/6 or by Post 8/-.

Judaism in the New Testament Period.
By R. Travers Herford, B.A. ... 4/6 or by Post 4/10.

The King who was Thirsty.
(Thirty-four Talks to Girls and Boys), by Bertram Lister, M.A. 2/6 or by Post 2/9.

Be Comforted.
An Anthology of consolation for those in sorrow. Edited by W. E. George, M.A. ... ... 1/6 or by Post 1/8.

THE LINDSEY PRESS, ESSEX HALL BOOKROOM,
5, Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones

F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

Qualified Ophthalmic Optician, Jeweller and Silversmith

MY CONSULTING ROOM at the address below is fully equipped with the very latest appliances for the testing of eyes, and I am fully qualified to carry out this work in the most efficient and satisfactory manner possible. . . . . .

On the JEWELLERY and SILVERSMITH side of my business, I carry an up-to-date stock of WATCHES, CLOCKS, BAROMETERS, SPORTING TROPHIES, etc., all of which are offered at competitive prices. . . . . .

REPAIRS are effected on the premises, and in every department entire satisfaction is guaranteed. . . . . .

31, GREAT DARKGATE ST. ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.